

CRONFA GYMORTH LLIFOGYDD BUSNES

Llywodraeth Cymru wedi gweithredu'r Gronfa Cymorth Llifogydd Busnes i gefnogi busnesau yn Sir Fynwy sydd wedi'u heffeithio'n uniongyrchol gan Storm Claudia. Mae'r gronfa hon yn darparu cymorth ariannol i'r busnesau hynny sydd wedi dioddef llifogydd mewnol o ganlyniad i Storm Claudia ac yn gallu cefnogi busnesau gyda chostau adfer nad ydynt wedi'u cynnwys gan yswiriant.

CRONFA GYMORTH LLIFOGYDD BUSNES

Mae grant o hyd at £3,000 ar gael i gynorthwyo busnesau sydd wedi dioddef llifogydd mewnol o ganlyniad i Storm Claudia.

Dim ond busnesau sy'n bodloni'r meini prawf canlynol all hawlio'r grant hwn:

- Rhaid i'r busnes fod yn **Fusnes Bach a Chanolig (BBaCh)** neu'n sefydliad elusennol o faint cyfatebol.
- Rhaid i'r busnes ddangos eu bod wedi dioddef **llifogydd mewnol yn uniongyrchol o ganlyniad i Storm Claudia**.
- Dim ond i dalu costau na ellir eu hadennill drwy yswiriant y gellir defnyddio'r cyllid.
- **Un cais fesul busnes.**
- **Un cais fesul eiddo.**
-

Rhaid i denantiaid a landlordiaid masnachol gydweithio i benderfynu pwy fydd yn gwneud y cais.

- Bydd angen i fusnesau ddarparu:
 - Manylion am y costau amcangyfrifedig sydd wedi effeithio ar eu busnes.
 - Tystiolaeth o gyfeiriad y busnes (o fewn y 3 mis diwethaf).
 - Tystiolaeth ffotograffig o'r difrod.
- Eithriadau – nodwch fod:
 - Ni fydd ffioedd gormodedd yswiriant yn cael eu hystyried yn gost gymwys.
 - Nid yw'r grant hwn yn ymestyn i ddifrod/costau sy'n gysylltiedig ag eiddo preswyl.

Beth all gael ei ariannu a faint all pob busnes wneud cais amdano?

Grant Cymorth Llifogydd Busnes o hyd at £3,000 ar gael fesul busnes. Gellir defnyddio'r grant i ariannu 75% o'r costau cymwys a nodwyd, hyd at uchafswm o £3,000. Er enghraifft, mae'r swm y byddwch yn ei hawlio a'r swm y byddwch yn ei dderbyn wedi'i nodi isod:

Swm y costau cymwys a nodwyd gennyh:	Swm y grant y byddwch yn ei dderbyn:
£1,000	£750
£2,000	£1,500
£3,000	£2,250
£4,000 neu mwy	£3,000

Gellir dim ond defnyddio'r cyllid i dalu costau na ellir eu hadennill drwy yswiriant ac sy'n ymwneud â:

- adnewyddu;
- thrwsio (gan gynnwys costau cysylltiedig megis sychu, glanhau a ffioedd proffesiynol);
- amnewid offer;
- mesurau gwydnwch llifogydd.

Gellir talu grantiau ar gyfer eitemau sydd eisoes wedi'u prynu (ar ôl dyddiad y llifogydd), a/neu eitemau nad yw'r busnes wedi'u prynu eto.

Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail unigol, ac mae talu'r grant yn ôl disgrisiwn y Cyngor.

SUT I YMGEISIO

Gellir dod o hyd i ffurflen gais ar wefan y cyngor: <https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/storm-claudia-cymorth-i-fusnesau/>. Bydd y Gronfa'n cau ar 31 Ionawr 2026 (yn amodol ar arian ar gael).

CANLLAW AR GWBLHAU'R FFURFLEN

Adran 1 – Gwybodaeth Amdanoch Chi

Mae'r rhan hon yn gofyn am wybodaeth amdanoch chi, sef 'yr ymgeisydd'. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth gyswllt a ddarperir i gysylltu â chi os oes unrhyw gwestiynau ynghylch eich cais neu os oes angen gwybodaeth ychwanegol.

Adran 2 – Gwybodaeth am Eich Busnes

Darparwch wybodaeth am eich busnes. Bydd hyn yn cynnwys enw'r busnes, cyfeiriad, math o fusnes, natur y busnes, strwythur cyfreithiol, a rhifau cofrestru cysylltiedig.

Os nad ydych wedi'ch cofrestru gyda Tŷ'r Cwmnïau neu'r cyfatebol (e.e. masnachwr unigol neu bartneriaeth), dylech nodi NA ar gyfer rhif cofrestru'r cwmni. Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth i'n galluogi i wirio eich gweithgaredd busnes (e.e. cofrestriad corff proffesiynol/cymdeithas, UTR, ac ati).

Adran 3 – Manylion y Llifogydd

Mae angen i ni ddeall sut mae'r llifogydd wedi effeithio arnoch chi a'ch busnes. Cwblhewch yr adran hon mor fanwl â phosibl fel y gallwn ddeall pam fod angen cymorth arnoch gan y gronfa hon.

Yn y cwestiwn **“Ar beth fyddwch yn gwario'r grant?”**, darparwch rhestr fanwl o'r hyn rydych yn bwriadu gwario'r grant arno. Er enghraifft:

- Llawr newydd a chostau gosod cysylltiedig @ £1,750
- Amnewid 2 x Systemau EPOS @ £120 yr uned
- Peiriant golchi llestri o dan y cownter @ £1,899

Yswiriant – Mae angen i ni gadarnhau a oeddech wedi'ch yswirio; os oes unrhyw eithriadau yn eich polisi, a pha gamau a gymerwyd i geisio adfer drwy'ch cwmni yswiriant, gan gynnwys yr amserlenni tebygol. Os oes gennych yswiriant ond costau nad ydynt wedi'u cynnwys yn eich polisi, bydd angen i chi uwchlwytho copi o'r polisi yswiriant sy'n dangos unrhyw eithriadau, neu ohebiaeth gan eich yswiriwr yn cadarnhau hyn.

Adran 4 – Manylion Banc

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i wneud taliad y Grant i chi. Gall y cyngor hefyd ddefnyddio'r wybodaeth hon fel rhan o wiriadau gwrth-dwyll.

Adran 5 – Uwchlwytho Dogfennau

Bydd angen i chi ddarparu, tystiolaeth o gyfeiriad eich busnes (e.e. bil cyfleustodau/datganiad banc o fewn y 3 mis diwethaf), lluniau o'r difrod i'r eiddo, ac tystiolaeth o'r hyn rydych yn bwriadu gwario'r grant arno.

Os nad ydych wedi'ch cofrestru gyda Tŷ'r Cwmnïau neu'r cyfatebol (e.e. masnachwr unigol neu bartneriaeth), bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth i'n galluogi i wirio eich gweithgaredd busnes (e.e. cofrestriad corff proffesiynol/cymdeithas, UTR, ac ati).

Adran 6 – Subsidy Control

O dan Ddeddf Rheolaeth Cymhorthdal 2022, mae is-ddal yn digwydd pan fydd awdurdod cyhoeddus yn darparu cymorth i fusnes sy'n rhoi mantais economaidd iddo, sy'n golygu na ellid cael cymorth cyfatebol ar delerau masnachol. Gall hyn fod ar ffurf grant, gostyngiad treth, benthyciad, gwarant neu fuddsoddiad ecwiti ar delerau ffafriol, neu ddefnyddio cyfleusterau am bris is na'r farchnad, ymhlith mathau eraill o gymorth.

Mae'r cymorth grant hwn yn cael ei gynnig o dan Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA). O dan y Ddeddf, mae MFA yn caniatáu i awdurdodau cyhoeddus ddyfarnu is-ddaliadau gwerth isel heb orfod cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r gofynion rheoli is-ddaliadau. Mae gan MFA drothwy ariannol fel na all derbynnydd gael mwy na £315,000 dros y cyfnod perthnasol o dan adran 36(1) o'r Ddeddf.

Mae rheolau cronni yn berthnasol i MFA. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod y DU yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau rhyngwladol. Mae is-ddaliadau MFA yn cronni gyda'i gilydd ac ag is-ddaliadau eraill sy'n dod o dan y categori 'Cymorth Ariannol Lleiaf neu SPEI'. Dylid ystyried y canlynol yn ystod y ddwy flynedd ariannol flaenorol a'r flwyddyn gyfredol:

- Cymorth Ariannol Lleiaf
- Cymorth SPEI
- Cymorth a roddwyd o dan reoliadau cymorth gwladol yr UE cyn 31 Rhagfyr 2020
- Is-ddaliadau a roddwyd fel symiau bach o gymorth ariannol (SAFA) o dan Erthyglau 364(4) neu 365(3) o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu DU-UE ar ôl diwedd y cyfnod gweithredu ond cyn i'r adran hon ddod i rym.

Bydd angen i chi gadarnhau manylion unrhyw is-ddaliadau cymwys a gawsoch yn y cyfnod perthnasol, neu nad ydych wedi derbyn unrhyw rai.

Adran 7 - Declaration

Mae'n bwysig iawn eich bod wedi darllen y canllaw hwn ac yn deall yr amodau sy'n gysylltiedig â'r cais Grant hwn.

Bydd angen i chi gytuno i delerau ac amodau'r grant a chadarnhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn y cais yn wir ac yn gywir cyn y gellir prosesu eich cais.

Dylid uwchlwytho'r holl dystiolaeth ategol gyda'ch ffurflen gais. Gall methu â darparu'r holl wybodaeth berthnasol arwain at oedi wrth brosesu eich cais.

BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL DERBYN Y CAIS

Ar ôl cyflwyno'ch cais ar-lein, byddwch yn derbyn e-bost derbyn awtomatig a fydd yn creu rhif cyfeirnod unigryw ar gyfer eich cais. Dylech ddyfynnu'r rhif hwn mewn unrhyw ohebiaeth yn y dyfodol. Bydd ceisiadau'n cael eu prosesu ar ôl derbyn y ffurflen gais ar-lein wedi'i chwblhau a phan fydd yr holl dystiolaeth a'r wybodaeth ofynnol wedi'u darparu.

Bydd penderfyniadau ar geisiadau'n cael eu gwneud yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarperir yn y ffurflen gais, y dystiolaeth gysylltiedig a'r gwiriadau gwybodaeth a gynhelir o ddata ffynonellau busnes eraill. Ein nod yw gwneud penderfyniadau a thalu Grantiau o fewn deg diwrnod gwaith ar ôl derbyn yr holl wybodaeth lawn.

Os dyfernir cyllid, byddwch yn derbyn e-bost yn eich hysbysu am ddyfarniad y Grant ynghyd â chopi o'r telerau ac amodau er gwybodaeth i chi.

Bydd grantiau'n cael eu talu ar y sail bod 100% o'r grant yn cael ei dalu ymlaen llaw, gyda'r gofyniad y **gallwn** ofyn i'r busnes ddarparu tystiolaeth o'r gwariant ar ddyddiad diweddarac

Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, byddwch yn derbyn e-bost yn nodi'r rheswm/rhesymau pam a chyingor ar gymorth pellach. Mae unrhyw benderfyniadau a wneir gan y cyngor yn derfynol ac nid oes proses apelio.

AD-DALIAD GRANT

Dylai ymgeiswyr nodi y gall Cyngor Sir Fynwy a Llywodraeth Cymru ofyn am ad-dalu'r grant yn llawn neu'n rhannol os nad yw'r arian yn cael ei ddefnyddio at y dibenion a nodir ar y ffurflen gais. Mae'r ymgeisydd grant yn mynd i mewn i gytundeb fel hyn a gall hyn gael ei orfodi drwy ofyn am brawf ar ôl dyfarnu'r grant.

Os oes angen cymorth arnoch i gwblhau'r ffurflen hon, ebostiwch economicdevelopment@monmouthshire.gov.uk.

Hysbysiad Preifatrwydd

Diogelu Data a Chyfrinachedd – Rydym yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu diogelu gwybodaeth bersonol, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data y DU (GDPR). Bydd y wybodaeth bersonol a ddarperir gennych yn y ffurflen hon yn aros yn gwbl gyfrinachol ac fe'i rhennir yn unig gyda Llywodraeth y DU, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a Llywodraeth Cymru fel rhan o'u proses werthuso. Cedwir ac fe'i defnyddir y wybodaeth hon yn unol â'n polisi cadw data. Am ragor o wybodaeth am breifatrwydd, ewch: www.monmouthshire.gov.uk/cy/eich-preifatrwydd/

